**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon sy'n dwyn y teitl Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

**12 Ionawr 2018**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor ar gynlluniau cyllideb ddrafft 2018-19 ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth wraidd y cynlluniau hyn mae ymrwymiad y Llywodraeth i GIG Cymru, sy'n darparu £450 miliwn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i sicrhau ei fod wedi'i ariannu'n ddigonol er mwyn diwallu gofynion a disgwyliadau dinasyddion Cymru. Ochr yn ochr â hyn mae ein huchelgais i fwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*, a fydd yn thema y byddwn yn parhau i'w datblygu yn ystod 2018-19 wrth lunio ein cynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol.

**Mae ein hymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2018, ei bod yn pennu costau'n llawn ar gyfer cynlluniau i ddatblygu newid trawsnewidiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i gyllid ychwanegol ar gyfer y GIG gael ei ddefnyddio i gyflwyno newid.

**Ymateb : Gwrthod**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y cynllun yn nodi'r camau strategol y bydd angen eu cyflawni gan y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wireddu'r weledigaeth o wasanaethau ar gyfer y dyfodol y bydd yr Adolygiad yn eu disgrifio ac yn eu hargymell. Y partneriaid cyflawni wedyn fydd yn gyfrifol am ddatblygu eu cynlluniau lleol a'u rhoi ar waith o fewn yr amlenni cyllido a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae Adolygiad y Sefydliad Iechyd yn dangos bod lefel yr arian ychwanegol a gynhwysir yn y Gyllideb Ddrafft ond yn ddigonol i gynnal gwasanaethau craidd. Fodd bynnag, mae £100 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer trawsnewid yn y Gyllideb Derfynol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ffyrdd y caiff cyllid i drawsnewid gwasanaethau a chyllid pontio eu blaenoriaethu a sicrhau eu bod ar gael i sefydliadau'r GIG o fewn cyllidebau presennol.

**Ymateb : Derbyn**

Ers i gynlluniau'r gyllideb ddrafft gael eu cyhoeddi, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi cynigion y Gyllideb Derfynol, sy'n cynnwys £100 miliwn ychwanegol i'r GIG dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r buddsoddiad pellach hwn yn rhoi cyfle go iawn inni fwrw ymlaen â'r broses o drawsnewid gwasanaethau, a byddwn yn buddsoddi'r arian ychwanegol hwn yn y Gronfa Gofal Integredig, mewn gofal sylfaenol, ac i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau ysbytai yn strategol. Bydd rhagor o fanylion am gymhwyso'r cyllid hwn yn dilyn yn gynnar yn 2018.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru flaenoriaethu gwaith ataliol. Rhaid i hyn amrywio o ymyriadau sy'n sicrhau canlyniadau amserol i gleifion i fuddsoddi i arbed rhaglenni fel ymgyrchoedd ataliol ym maes iechyd. Rhaid i fuddsoddiad mewn dulliau ataliol fod yn rhan annatod o waith newid trawsffurfiol GIG Cymru.

**Ymateb : Derbyn**

Mae gwaith ataliol yn cael ei flaenoriaethu fel thema graidd yng nghanllawiau cynllunio'r GIG, y mae Byrddau ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn eu defnyddio i ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lle mae angen dulliau ataliol ar y ddwy.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn rhaglenni a dulliau gofal iechyd ataliol cenedlaethol os cânt eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn (megis rhaglenni sgrinio a brechu ar lefel y boblogaeth) a darparu tystiolaeth i gefnogi buddsoddiad gan bartneriaid lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid derbyn wrth wneud hynny y gellir herio a newid gwasanaethau presennol i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau'r boblogaeth.

**Goblygiadau Ariannol -** Mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio a cheir darpariaeth ar ei gyfer o fewn rhaglenni a chyllidebau Costau Rhedeg preseennol y Gyfarwyddiaeth.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r fethodoleg bresennol ar gyfer pennu cyllidebau byrddau iechyd a chyhoeddi ei chanfyddiadau. Rhaid i fyrddau iechyd weithio tuag at hyfywedd ariannol o safbwynt hyder bod eu lefelau cyllid presennol yn briodol.

**Ymateb : Gwrthod**

Pennir dyraniadau Byrddau Iechyd yn bennaf gan y dyraniadau rheolaidd o'r blynyddoedd blaenorol wedi'u haddasu ar gyfer unrhyw addasiadau yn y dyraniadau naill ai ar gyfer mentrau penodol neu ddyraniadau dewisol ychwanegol a ddosberthir gan y fformiwla dyrannu adnoddau. Mae'r dyraniadau, gan gynnwys tablau manwl ar gyfer dyraniadau dewisol ac arian wedi'i glustnodi, yn cael eu cyhoeddi drwy'r Dyraniad Blynyddol a roddir i'r holl Fyrddau Iechyd. Yn ychwanegol at ddyraniadau dewisol ychwanegol, bydd dyraniadau penodol yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn o hyd yn unol â blaenoriaethau.

Bydd gwaith ar yr adolygiad o'r dyraniad adnoddau'n canolbwyntio ar benderfynu ar fformiwla newydd a fyddai'n cael ei defnyddio fel fformiwla ddosbarthu ar gyfer dyraniadau dewisol ychwanegol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys tystiolaeth a dysgu o adroddiadau ac adolygiadau eraill, megis effaith ddemograffig, proffiliau o bob oedran a hefyd newidiadau yn y boblogaeth dros amser, o adroddiad y Sefydliad Iechyd "Y llwybr i gynaliadwyedd: Rhagolygon cyllid ar gyfer y GIG yng Nghymru" a hefyd yr Adolygiad Seiliedig ar Sero diweddar yn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Yn unol â pholisi sydd eisoes yn bodoli, ni fwriedir i'r fformiwla, neu'r fformiwla newydd, gael ei chymhwyso i ddyraniadau gwaelodlin. Gallai unrhyw newid mewn polisi, i gymhwyso fformiwla i ddyraniadau llinell sylfaen presennol, arwain at oblygiadau ariannol sylweddol a goblygiadau sylweddol i wasanaethau pe bai adnoddau ariannol yn cael eu tynnu oddi ar fyrddau iechyd lleol sydd eisoes yn wynebu heriau ariannol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod arfer da lleol yn cael ei drosi i newid ar draws gwasanaethau ledled Cymru

**Ymateb : Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datblygu dull o sicrhau effeithlonrwydd drwy Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru. Mae'r dull hwn a'r mentrau hyn, arferion da, a hefyd mentrau penodol megis y Fframwaith Effeithlonrwydd, Rheoli Meddyginiaethau, Amrywiad Clinigol, yn ategu ac yn cefnogi rhaglenni effeithlonrwydd lleol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan Llywodraeth Cymru (ein Hargymhelliad 5) ganolbwyntio'n glir ar sut bydd

buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chefnogi newid trawsffurfiol.

**Ymateb : Derbyn**

Mae buddsoddiadau cyfalaf y GIG yn cael eu blaenoriaethu yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

- Manteision i iechyd
- Fforddiadwyedd
- Cynaliadwyedd clinigol a sgiliau
- Tegwch
- Gwerth am arian

Byddai'r meini prawf hyn yn cwmpasu effeithlonrwydd a newid.  Caiff achosion busnes unigol ar gyfer buddsoddi cyfalaf eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf hyn cyn i'r Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith wneud unrhyw argymhelliad.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a dwyn byrddau iechyd i gyfrif i flaenoriaethu cyllid cyfalaf ar gyfer gofal sylfaenol sicrhau ei fod yn gwella capasiti corfforol ar gyfer gwaith amlddisgyblaeth a hyrwyddo modelau gofal newydd.

**Ymateb : Derbyn o ran egwyddor**

Mae buddsoddiadau cyfalaf y GIG yn cael eu blaenoriaethu yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

- Manteision i iechyd
- Fforddiadwyedd
- Cynaliadwyedd clinigol a sgiliau
- Tegwch
- Gwerth am arian

Mae'r meini prawf hyn hefyd yn cwmpasu buddsoddiadau arfaethedig mewn gofal sylfaenol a modelau gofal newydd.  Caiff achosion busnes unigol ar gyfer buddsoddi cyfalaf eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf hyn cyn i'r Bwrdd Buddsoddi mewn Seilwaith wneud unrhyw argymhelliad.  Caiff rhaglenni cyfalaf y Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd eu hadolygu a'u herio drwy'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig a hefyd drwy gyfarfodydd rheolaidd yr Adolygiad Cyfalaf.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad pellach o arian wedi'i glustnodi i iechyd meddwl i asesu p'un a yw wedi arwain at wariant effeithiol a phriodol ar iechyd meddwl a sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

**Ymateb : Gwrthod**

Rydym yn gwrthod yr argymhelliad i gynnal adolygiad pellach o'r arian sydd wedi'i glustnodi i iechyd meddwl ar y sail ei fod yn destun adolygiad annibynnol blaenorol a gyhoeddwyd yn 2016. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod diben yr arian a glustnodwyd - amddiffyn gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru - wedi'i gyflawni i raddau helaeth. Gwnaeth yr adroddiad hefyd nifer o argymhellion ynghylch sut y gellid sicrhau gwell cysylltiad rhwng buddsoddi mewn iechyd meddwl a chanlyniadau. Mewn ymateb i hynny, cafodd y trefniadau ar gyfer clustnodi arian eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio craidd ar gyfer y GIG a diweddarwyd y canllawiau sy'n cefnogi cylch 2017-20 y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i gynnwys gofynion i fyrddau iechyd:

- Ddangos dealltwriaeth o anghenion iechyd a lles meddyliol y boblogaeth ar draws y cwrs bywyd;
- Cynnwys dadansoddiad o allu a galw sydd hefyd yn dangos sut y mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu ar y meysydd i'w gwella;
- Nodi camau gweithredu clir, cerrig milltir mesuradwy ar gyfer gweithredu, dadansoddi risgiau i gyflawni a mesurau llwyddiant.

Mae'r canllawiau hyn hefyd wedi'u diweddaru a'u cynnwys yng nghylch 2018 - 21 y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Nod y camau hyn yw sicrhau bod asesiadau o anghenion iechyd meddwl yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y broses gynllunio gan ganiatáu i'r anghenion a nodir lywio unrhyw ddatblygiadau sydd eu hangen o ran gwasanaethau a'r gweithlu. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cyllid iechyd meddwl dros y pum mlynedd diwethaf gyda chynllun i gynyddu'r arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl ymhellach, sef £20 miliwn yn ychwanegol yn 2018-19. Rydym hefyd yn targedu adnodd ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd meddwl, sy'n eistedd y tu allan i'r arian a glustnodwyd i adlewyrchu'r cynnydd yn y galw.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr achos cryfaf posibl i Lywodraeth y DU / Gwasanaeth Rheoli Troseddau Cenedlaethol dros gynyddu'r hyn sy'n ddyraniad ariannol cymharol fach ar gyfer iechyd mewn carchardai er mwyn sicrhau bod unigolion yn yr ystadau diogel yng Nghymru, sy'n aml ag anghenion uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig o ran iechyd meddwl, yn gallu cael gofal iechyd o safon.

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd y cyfrifoldeb am wasanaethau iechyd yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2003. Byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyllid i godi ein pryderon ar sail y ffaith fod poblogaeth carchardai Cymu yn tyfu.

Mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor am nodi bod y trefniadau ar gyfer ariannu gwasanaethau iechyd yng Ngharchar y Berwyn y tu allan i'r cwmpas trosglwyddo cyllid gwreiddiol yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb yn 2003. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hi’n glir y byddai angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU pe bai'r BILl yn darparu gofal iechyd i'r carchar. Felly, gweithiodd swyddogion yn agos gyda chydweithwyr yng Ngharchar Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf ar y camau cynllunio i ddylunio'r cyfleusterau gofal iechyd ac i hwyluso perthynas ariannu uniongyrchol rhyngddynt a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cynnwys adolygiadau rheolaidd o wariant yn erbyn yr arian a ddarperir ar gyfer gwasanaethau iechyd, ac yn arbennig, os oes unrhyw newidiadau ym mhroffil y carcharorion, y boblogaeth neu nifer y carcharorion ar remand.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried swm sylweddol gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth, y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r anghysonderau a chynnal mentrau ar draws trefniadau asiantaeth / banc gyda'r bwriad o wneud newidiadau sy'n lleihau gwariant yn sylweddol.

**Ymateb : Derbyn**

Mae camau sylweddol eisoes wedi'u wedi eu cymryd. Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC 2017-42) ar 23 Hydref 2017 sy'n nodi cyfres o gamau gweithredu cydlynol cenedlaethol sy'n ceisio lleihau'r defnydd o asiantaethau a locwm ledled Cymru. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys cyfres o gyfyngiadau ar ddefnyddio staff asiantaeth a staff locwm gyda chraffu ar lefel y Bwrdd ar unrhyw ddefnydd y tu allan i'r trefniadau hyn. Roedd yn ofynnol i'r holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd gyflwyno cynlluniau ar gyfer lleihau'r defnydd a dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd. Bydd adroddiadau misol rheolaidd yn cael eu cyflwyno o ddiwedd mis Rhagfyr ymlaen i olrhain cynnydd.

Ochr yn ochr â'r cyfyngiadau hyn, byddwn yn sefydlu Uned Gyflawni ar gyfer y Gweithlu i graffu ar gynnydd, rhannu arferion effeithiol a chynnal adolygiadau i fynd at wraidd unrhyw broblemau sy'n rhwystro cynnydd tuag at leihau'r defnydd o staff asiantaeth a locwm. Byddwn yn gofyn i'r Uned Gyflawni adolygu anghysonderau a chymhellion gwrthnysig fel rhan o'u rhaglen waith gynnar.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio a cheir darpariaeth ar ei gyfer o fewn rhaglenni a chyllidebau Costau Rhedeg Is-adrannol presennol.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid sicrhau bod cyllid ychwanegol blwyddyn ar ôl blwyddyn wedi'i gynllunio ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n ddigonol i adlewyrchu gofynion cynyddol.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Mae mabwysiadu dull system gyfan eisoes yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Dim ond drwy fabwysiadu dull integredig y gellir sicrhau ffocws ar atal a chyflawni yn y gymuned. Mae'r rhain wrth wraidd rhaglen Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol, sefydlu system gofal iechyd darbodus a symud gofal yn nes at y cartref. Mae buddsoddiad eisoes yn cael ei wneud mewn dull integredig drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Gofal Sylfaenol, y maent ill dwy yn cefnogi datblygu modelau newydd o well mynediad a dull cyflawni integredig.

Bydd datblygu dull system gyfan ymhellach yn cael ei lywio gan ganlyniad yr Adolygiad Seneddol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

Fel rhan o baratoadau a phroses y gyllideb bob blwyddyn, adolygir blaenoriaethau ochr yn ochr â *Ffyniant i Bawb*. Mae hyn yn cynnwys asesu anghenion ar draws y Llywodraeth lle mae'r gwasanaethau yn cael eu harwain gan y galw. Mae'r broses ailadroddus o bennu'r gyllideb yn cynnwys cyfarfodydd dwyochrog gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a thrafodaethau gyda'r Cabinet cyfan i gydbwyso'r gostyngiad yn y gyllideb wirioneddol er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi'n sylweddol mewn cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol. Yn y Gyllideb Ddrafft, mae cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol wedi cynyddu £42 miliwn arall yn 2018-19, gan godi i £73 miliwn ychwanegol erbyn 2019-20. Mae Cymru yn gwario 8% yn fwy ar iechyd a gofal cymdeithasol na Lloegr, sef £206 ychwanegol y pen.

.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r newidiadau diweddaraf mewn portffolios yn cael effaith andwyol ar alinio rhwng

polisïau o ran gweithgarwch corfforol a chwaraeon a'r rhai sy'n ceisio gwella canlyniadau iechyd a lles.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y polisïau ar draws iechyd y cyhoedd a chwaraeon yn cael eu halinio'n agos i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Rydym wedi gofyn i Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio i ddatblygu dull o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys alinio'n fanwl â Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn cynnwys sefydlu fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer gweithgarwch corfforol, rhai cyd-fesurau perfformiad, gweithredoedd a dulliau a rennir ar gyfer gwerthuso effaith a gwerth am arian. Bydd y cynnydd cychwynnol yn cael ei adrodd yn ôl i Weinidogion yn gynnar yn 2018. At hynny, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra, a bydd cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a mynd i'r afael â ffyrdd o fyw eisteddog yn rhan bwysig ohoni. Y Prif Swyddog Meddygol sy'n arwain y gwaith hwn ac mae'r sector chwaraeon a'r sectorau iechyd yn ymwneud yn llawn â'r gwaith datblygu.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

**Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Huw Irranca-Davies AC, Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**